

Adroddiad i'r:	Cabinet
Dyddiad y Cyfarfod:	26 Gorffennaf 2016
Aelod / Swyddog Arweiniol:	Y Cynghorydd Julian Thompson-Hill
Awdur yr Adroddiad:	Richard Weigh, Pennaeth Cyllid
Teitl:	Adroddiad Blynyddol ar Reoli'r Trysorlys 2015/16 (Atodiad 1)

1 Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

- 1.1 Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â gweithgarwch buddsoddi a benthyca'r Cyngor yn ystod 2015/16. Mae hefyd yn rhoi manylion o'r hinsawdd economaidd yn ystod y cyfnod hwnnw ac yn dangos sut mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'i Ddangosyddion Darbodus.

2 Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

- 2.1 Prif ddiben yr adroddiad hwn yw diweddarau'r aelodau ar berfformiad swyddogaeth rheoli'r trysorlys ac i ddangos cydymffurfiaeth â chyfyngiadau'r trysorlys a Dangosyddion Darbodus yn ystod 2015/16.

3 Beth yw'r Argymhellion?

- 3.1 Gofynnir i'r Cabinet nodi Adroddiad Rheoli'r Trysorlys Blynyddol ar gyfer 2015/16.

4 Manylion yr Adroddiad

- 4.1 Mae'r adroddiad yn rhoi manylion am weithgareddau rheoli trysorlys y Cyngor a throsolwg o'r cefndir economaidd ar gyfer y flwyddyn. Mae'r adroddiad hefyd yn adrodd ar oblygiadau risg o benderfyniadau a thrafodion y trysorlys ac yn cadarnhau cydymffurfiaeth â chyfyngiadau'r trysorlys a Dangosyddion Darbodus.

5 Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

- 5.1 Mae penderfyniadau buddsoddi a benthyca da yn caniatáu i adnoddau ychwanegol i gael eu cyfeirio at wasanaethau eraill y Cyngor.

6 Beth fydd yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

- 6.1 Ddim yn berthnasol.

7 Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AoEaG) a gynhaliwyd ar y penderfyniad?

7.1 Nid yw hyn yn ofynnol fel rhan o'r adroddiad hwn.

8 Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?

8.1 Mae'r Cyngor wedi ymgynghori â'i gynghorwyr ar y trysorlys, Arlingclose Ltd.

8.2 Mae'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol wedi cael ei ddiweddarau ar weithgareddau Rheoli'r Trysorlys trwy gydol y flwyddyn ac wedi adolygu'r adroddiad hwn cyn ei gyflwyno i'r Cabinet.

9 Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1 Mae Rheoli'r Trysorlys yn golygu gofalu am symiau sylweddol o arian felly mae'n rhan hanfodol o waith y Cyngor. Mae'n gofyn am strategaeth gadarn a rheolaethau priodol i ddiogelu arian y Cyngor er mwyn sicrhau bod enillion rhesymol ar fuddsoddiadau yn cael eu cyflawni a bod dyled yn cael ei reoli'n effeithiol ac yn ddoeth.

9.2 Mae'n ofynnol yn ôl Cod Ymarfer CIPFA ar Reoli'r Trysorlys bod y Cyngor yn paratoi adroddiad blynyddol ar weithgarwch y trysorlys ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol. Mae angen i'r Cabinet nodi perfformiad swyddogaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor yn ystod 2015/16 a'i gydymffurfiaeth â Dangosyddion Darbodus fel yr adroddwyd yn Adroddiad Blynyddol Rheoli'r Trysorlys 2015/16.

10 Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1 Yn ei hanfod mae Rheoli'r Trysorlys yn beryglus ond mae'r Cyngor yn monitro ac yn rheoli'r risgiau hyn fel yr amlinellir yn y prif adroddiad. Fodd bynnag, nid oes modd dileu'r risgiau hyn yn gyfan gwbl. Mae strategaeth a gweithdrefnau rheoli trysorlys y cyngor yn cael eu harchwilio'n flynyddol ac roedd yr adolygiad archwilio mewnol diweddaraf yn gadarnhaol heb unrhyw broblemau arwyddocaol amlwg.

11 Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1 Mae Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol i roi sylw i Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chod Ymarfer Cyfrifyddiaeth wrth Reoli'r Trysorlys sy'n pennu'r gofyniad i'r Cabinet dderbyn adroddiad blynyddol ar weithgareddau'r trysorlys ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol.